OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3362

# Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

## RHAN 1

## Cyflwyniad

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "amod cymhwyso" ("*qualifying condition*") yw nad yw incwm gros neu wariant gros y corff perthnasol (pa bynnag un sydd uchaf) yn fwy na £2,500,000;

ystyr "archwilydd" ("*auditor*") yw—

(a) person y mae ei benodiad yn parhau i gael effaith yn rhinwedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 3, paragraff 2(2)(**1**);

(b) fel arall, Archwilydd Cyffredinol Cymru;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*") yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer dosbarth iechyd porthladd sydd yng Nghymru yn gyfan gwbl;

ystyr "awdurdod tân ac achub" ("*fire and rescue authority*") yw awdurdod a gyfansoddir gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**2**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo;

ystyr "blwyddyn" ("*year*") yw'r 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "bwrdd cadwraeth" ("*conservation board*") yw bwrdd a sefydlir o dan adran 86 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**3**);

ystyr "bwrdd draenio mewnol" ("*internal drainage board*") yw bwrdd draenio mewnol ar gyfer dosbarth draenio mewnol sydd yng Nghymru yn gyfan gwbl;

ystyr "corff perthnasol" ("*relevant body*") yw (fel y bo'n briodol) corff perthnasol mwy neu gorff perthnasol llai;

ystyr "corff perthnasol llai" ("*smaller relevant body*") yw corff—

(a) sy'n—

(i) cyngor cymuned;

(ii) pwyllgor i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (gan gynnwys cyd-bwyllgor);

(iii) awdurdod iechyd porthladd;

(iv) bwrdd draenio mewnol; neu

---

(**1**) 2013 dccc 3. Mae paragraff 2(2) o Atodlen 3 (darllenwch gydag O.S. 2013/1466 (Cy. 138) (C. 56)) yn gwneud darpariaeth bod penodiad archwilydd, pan fo'r penodiad hwnnw, yn union cyn 1 Ebrill 2014, yn cael effaith o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn parhau i gael effaith tan ddiwedd y cyfnod y gwnaed y penodiad ar ei gyfer (yn ddarostyngedig i unrhyw derfyniad cynharach).

(**2**) 2004 p. 21.

(**3**) 2000 p. 37.

(v) bwrdd cadwraeth; a

(b) sy'n—

(i) corff sefydledig, sy'n bodloni'r amod cymhwyso ar gyfer y flwyddyn dan sylw neu ar gyfer unrhyw un o'r ddwy flynedd flaenorol;

(ii) corff sydd newydd ei sefydlu, sy'n bodloni'r amod cymhwyso ar gyfer ei flwyddyn gyntaf neu ail flwyddyn;

ystyr "corff perthnasol mwy" ("*larger relevant body*") yw—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

(b) awdurdod tân ac achub;

(c) awdurdod Parc Cenedlaethol;

(d) comisiynydd heddlu a throsedd;

(e) prif gwnstabl; neu

(f) corff a restrir yn y diffiniad o "corff perthnasol llai" yn y rheoliad hwn ond nad yw'n bodloni'r amod cymhwyso;

ystyr "cyd-bwyllgor" ("*joint committee*") yw cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau lleol;

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**4**);

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**5**);

ystyr "Deddf 2003" ("*the 2003 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2003;

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn unrhyw ddiwrnod arall sy'n ŵyl y banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**6**); ac

ystyr "hysbysiad drwy hysbyseb" ("*notice by advertisement*") yw hysbyseb a gyhoeddir mewn un neu fwy o bapurau lleol sy'n cylchredeg yn ardal y corff perthnasol.

(2) Ystyr unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at "swyddog ariannol cyfrifol " ("*responsible financial officer*") yw—

(a) y person sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol corff perthnasol yn rhinwedd—

(i) adran 151 o Ddeddf 1972 (gweinyddiaeth ariannol),

(ii) adran 112(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (gweinyddiaeth ariannol o ran awdurdodau penodol)(**7**), neu

(iii) paragraff 13(6) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (awdurdodau parciau cenedlaethol)(**8**),

neu, os nad oes unrhyw berson sy'n gyfrifol yn y modd hwn, y person sy'n gyfrifol am gadw cyfrifon corff o'r fath; neu

(b) os nad yw'r person y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) yn alluog i weithredu oherwydd absenoldeb neu salwch—

(**4**) 1972 p. 70.

(**5**) 1989 p. 42.

(**6**) 1971 p. 80.

(**7**) 1988 p. 41; diwygiwyd adran 112 gan Ddeddf yr Heddlu 1997 (p. 50), Atodlen 6, paragraff 27; Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p. 16), Atodlen 6, paragraff 45 a 47; Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), Atodlen 1, paragraff 68; Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20), Atodlen 6, paragraffau 74 a 78; a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (p. 13), Atodlen 16, paragraffau 180 a 187.

(**8**) 1995 p. 25.

(i) unrhyw aelod o staff y person hwnnw a enwebwyd gan y person hwnnw at ddibenion adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (swyddogaethau swyddog cyfrifol o ran adroddiadau)(**9**); neu

(ii) os na wnaed enwebiad o'r fath o dan yr adran honno, unrhyw aelod o staff a enwebwyd gan y person y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(**9**) 1988 p. 41; diwygiwyd adran 114 gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), Atodlen 5, paragraff 66; Deddf yr Heddlu a Llysoedd Ynadon 1994 (p. 29), Atodlen 4, paragraff 34; Deddf yr Heddlu 1997 (p. 50), Atodlen 6, paragraff 28; Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001 (p. 16), Atodlen 6, paragraffau 45 ac 48; O.S. 2002/808; Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (p. 13), Atodlen 16, paragraffau 180 a 188; a Deddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), Atodlen 25, Rhan 32.